# Arwain timau i gefnogi eraill i ofalu am blant a'u diogelu

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion ar gyfer grymuso eraill i ddatblygu a defnyddio sgiliau i ofalu am blant yn eu gofal, a'u diogelu. Mae'r ffocws ar arwain timau i nodi'r sgiliau angenrheidiol, darparu cymorth, monitro cynnydd, a sicrhau dulliau cyfathrebu a chydlynu effeithiol ag eraill.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adnabod profiad, arbenigedd a galluoedd eraill o ran gofalu am blant a’u diogelu
2. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau timau o ran cefnogi eraill i ofalu am blant a’u diogelu
3. sicrhau bod timau’n cyfathrebu’n effeithiol ag eraill
4. cefnogi timau i weithio ar y cyd ag eraill i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o ofalu ac amddiffyn
5. gweithio gyda thimau i nodi a rheoli’r risgiau i lesiant plant
6. cefnogi timau i gydweithio ag eraill i nodi eu sgiliau yn ogystal â meysydd i’w datblygu
7. grymuso timau i gefnogi eraill i gael gafael ar wybodaeth ac adnoddau
8. arwain timau yn y gwaith o sefydlu cytundebau ag eraill ar sut i roi adborth, sut y bydd risgiau’n cael eu rheoli, a sut y byddir yn mynd i’r afael â phryderon
9. cydweithio i ddatblygu cynlluniau gweithredu i gefnogi eraill i gryfhau sgiliau gofalu
10. monitro ac adolygu arsylwadau gan dimau o ryngweithiadau rhwng plant ac eraill, gan sicrhau bod adborth yn cael ei roi
11. annog timau i gadarnhau rhyngweithiadau ac ymddygiadau cadarnhaol sy’n cefnogi llesiant plant
12. cefnogi timau i nodi pryd y mae angen datblygu sgiliau gofalu pobl eraill ymhellach a sicrhau bod cymorth addas yn cael ei roi
13. hwyluso trafodaethau mewn timau ynghylch pryderon a chydweithio ag eraill i fynd i’r afael â’r rhain
14. arwain timau i gefnogi eraill i ymarfer a myfyrio ynghylch sgiliau gofalu
15. gweithio ar y cyd i gefnogi eraill i adnabod cynnydd, dathlu cyflawniadau, a chynllunio rhagor o waith datblygu sgiliau
16. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain timau i gefnogi eraill i ofalu am blant a’u diogelu
17. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i arwain timau i gefnogi eraill i ofalu am blant a’u diogelu

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. dulliau o rymuso timau i gefnogi eraill i ofalu am blant a'u diogelu
2. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth ofalu am blant a'u diogelu
3. technegau ar gyfer datrys problemau a meddwl yn flaengar mewn timau, yn enwedig wrth fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau gofalu
4. sut mae arwain timau i gael gafael ar adnoddau, gwybodaeth a chymorth i lywio ymarfer wrth helpu eraill
5. pwysigrwydd hunaniaeth a hunan-barch o ran datblygu hyder a sgiliau pobl eraill, a sut i hybu hyn drwy arweinyddiaeth tîm
6. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi timau ac eraill
7. sut mae straen yn dylanwadu ar alluoedd gofalu, a sut i gefnogi timau i fynd i'r afael â hyn
8. dulliau ar gyfer cyfathrebu â phlant ac eraill, gan gynnwys dulliau cyfathrebu di-lafar, a sut i gefnogi timau â hyn
9. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod y broses o ofalu am blant a'u diogelu
10. y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant plant ac eraill, a sut i fynd i'r afael â hyn drwy gymorth tîm
11. pwysigrwydd perthnasoedd a bondio, ac effaith tarfu ar blant ac eraill, a sut y dylai eich tîm ymateb i'r heriau hyn
12. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol o ran llunio anghenion plant ac eraill, a sut i sicrhau bod timau'n rhoi ystyriaeth i hyn
13. defnyddio technegau arsylwi i nodi a chofnodi rhyngweithiadau, a sut y gall eich tîm ddefnyddio hyn yn effeithiol
14. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i'w cefnogi i ofalu am blant a'u diogelu
15. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y cymorth sydd ei angen ar blant ac eraill, a sut i sicrhau bod timau'n rhoi ystyriaeth i hyn
16. y mathau o dystiolaeth sydd eu hangen mewn ymchwiliadau ac wrth amddiffyn plant, a sut i arwain eich tîm wrth gasglu tystiolaeth ddilys
17. ffiniau'r gweithle o ran diogelu a chasglu tystiolaeth, a phryd i ofyn am gymorth
18. y mentrau lleol a chenedlaethol sy'n hybu llesiant plant, a sut i gael gafael arnynt

19. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i arwain timau i gefnogi eraill i ofalu am blant a’u diogelu
20. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain timau i gefnogi eraill i ofalu am blant a’u diogelu
21. theorïau sy'n berthnasol i gefnogi eraill i ofalu am blant a’u diogelu
22. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain timau i gefnogi eraill i ofalu am blant a'u diogelu
23. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain timau i gefnogi eraill i ofalu am blant a’u diogelu
24. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain timau i gefnogi eraill i ofalu am blant a’u diogelu, a sut i fynd i'r afael â hyn
25. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi eraill i ofalu am blant a’u diogelu

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Arwain timau i gefnogi eraill i ofalu am blant a'u diogelu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD426 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cefnogi eraill, Diogelu, Gofalu am blant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |